Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cynwyd Sant
# Pen yr Ysgol
# Maesteg
# Penybont-ar-Ogwr
# CF34 9YE

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**dan gontract i Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Cynwyd Sant yng ngofal awdurdod lleol Penybont-ar-Ogwr. Mae dalgylch daearyddol eang yr ysgol yn cynnwys tref Maesteg ei hun a'r ardaloedd o gwmpas. Yn ôl yr ysgol, mae'r ardaloedd hyn wedi newid dros amser ac mae diweithdra ac amddifadedd cymdeithasol bellach yn nodwedd amlwg.

Mae 290 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar gofrestr yr ysgol. Mae nifer y disgyblion wedi syrthio rhyw ychydig yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gan 14% ohonynt yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim; ffigwr sydd yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae 28% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig ond nid oes unrhyw ddisgybl â datganiad. Mae'r canran hwn yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae nifer fach iawn o blant mewn gofal.

Daw 73% o'r disgyblion o gartrefi gyda Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o leiafrifoedd ethnig.

Mae'r ysgol wedi derbyn llawer o wobrau. Mae wedi ei hachredu fel Ysgol Iach ac wedi cyflawni statws ysgol Masnach Deg ac Eco-Sgolion. Mae wedi diwallu'r safonau i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Teulu, Marc Cenedlaethol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, gwobr Ysgol Ryngwladol a Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Tachwedd 2000. Bu newidiadau sylweddol ymhlith y staff a'r uwch dim rheoli ers yr arolygiad diwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant yw £3063 sy'n cymharu gydag uchafswm o £4826 ac isafswm o £2758 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhen y bont ar Ogwr. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 36ain uchaf o'r 52 ysgol gynradd ym Mhen y bont ar Ogwr.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol y pennaeth;
- mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac ar brydiau cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- cynigir ystod o brofiadau dysgu o ansawdd da i'r disgyblion;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan gyda rhai enghreifftiau o arfer rhagorol;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn mwynhau eu dysgu;
- mae nodweddion rhagorol yn ansawdd y cymorth a'r arweiniad a ddarperir i'r disgyblion; a
- gwneir defnydd rhagorol o bartneriaethau er budd addysg y plant.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth ddealltwriaeth sicr o anghenion yr ysgol a'i disgyblion;
- mae ffocws eglur ar wella'r ysgol a chodi safonau;
- mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn rhannu'r un gwerthoedd;
- mae prosesau monitro yn adnabod a blaenoriaethu meysydd priodol i'w gwella; ac
- mae mentrau newydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn codi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i’r ysgol;

A1 ymestyn y nodweddion da yn safonau cyrhaeddiad y disgyblion ar draws y pynciau craidd;

A2 barhau i godi safonau gwaith bechgyn; ac

A3 ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn Gymraeg.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd yn is na'r rhai a ddisgwylir yn arferol gan blant o'u hoedran. Mae data'r ysgol yn dangos fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac ar brydiau da iawn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn ôl asesiadau athrawon mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn anwastad. Mae canlyniadau yn y Gymraeg yn gwella ac yn ôl asesiadau 2010 roeddent yn uwch na chyfartaleddau’r awdurdod lleol, cenedlaethol a’r teulu o ysgolion. Mae’r canlyniadau mewn gwyddoniaeth yn debyg i gyfartaleddau’r awdurdod addysg a’r rhai cenedlaethol ond yn is na’r teulu o ysgolion. Mae’r canlyniadau mewn mathemateg yn is na chymaryddion. O'u cymharu gyda chanlyniadau ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae canlyniadau’r ysgol at ei gilydd yn amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn gwyddoniaeth yn gyson uwch na chyfartaleddau’r awdurdod lleol, cenedlaethol a’r teulu o ysgolion. Ym mathemateg a Saesneg, mae’r canlyniadau yn debyg neu yn uwch na chymaryddion yn y rhan fwyaf o’r blynyddoedd. Yn y Gymraeg, mae’r canlyniadau yn debyg neu yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol a’r teulu o ysgolion ond yn is na chyfartaleddau’r awdurdod lleol. O'u cymharu gyda chanlyniadau ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae canlyniadau’r ysgol yn amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 3, yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn gwella ond maent yn fwy anwastad ym mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chymaryddion yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Mae'r canlyniadau yn fwy anwastad yn y pynciau eraill er yn debyg neu yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol.

At ei gilydd, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ymhob pwnc ar draws pob cyfnod allweddol. Er hyn, mae data monitro cynnydd disgyblion yn dangos bod bechgyn yn gwneud cynnydd cyson ac yn codi eu safonau yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae gwaith cyfredol y disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda o gymharu â'u hoed a'u cyfnod datblygu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn asesiadau diweddaraf yr athrawon o safonau cyrhaeddiad disgyblion yn 2011 gyda'r canlyniadau ar i fyny mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai mwy galluog, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u targedau.

At ei gilydd, gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau dysgu yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae gallu llafar Cymraeg y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Gall y disgyblion hŷn drin a thrafod amrywiol bynciau yn hyderus, gan ddefnyddio geirfa eang yn gywir. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn cymhwyso'r medrau maent eisoes wedi eu dysgu i sefyllfaoedd newydd yn fedrus, gyda'r disgyblion hŷn yn dangos medrau cydweithio o safon dda iawn.

Gan ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau Cymraeg y disgyblion yn dda. O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith lafar gyda rhuglder cynyddol ac ar bob math o achlysur. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r modd y mae disgyblion yn defnyddio'u medrau llafar yn ystod gwaith grŵp, a gweithgareddau annibynnol, yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Ar y cyfan, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Er hyn, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddigon rheolaidd mewn amrywiaeth o ffurfiau yn Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

### Lles: Da

Mae'r ysgol yn flaengar yn hybu holl agweddau cadw'n iach a diogel ac o'r herwydd mae'r disgyblion yn wybodus iawn o ofynion a disgwyliadau bwyta a magu arferion personol iach. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant amlwg yn eu dysgu

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Maent yn mwynhau bod yn yr ysgol gyda chyfraddau presenoldeb yn gyson tua 93%, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfraddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. Pan fydd ymddygiad unigolion yn heriol, mae'r ysgol

yn gweithio'n agos ac yn effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymdeithas leol ac fe geir cyswllt cryf gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion. Maent yn elwa'n fawr iawn o'r cysylltiadau a'r profiadau hyn ac yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol, sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Caiff llais y disgybl le amlwg yn yr ysgol hon. Trwy weithgareddau amser cylch, cyngor yr ysgol, pwyllgor eco a phwyllgor masnach deg, cyfraniad y swyddogion a defnydd o holiaduron, caiff disgyblion o bob oed ddylanwad cadarnhaol iawn ar waith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. Cynllunnir profiadau dysgu o ansawdd da sydd yn ennyn a chynnal eu diddordeb. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i gyfrannu tuag at gynllunio themâu'r tymor. Mae cynllunio tymor hir yn sicrhau datblygiad da, ac weithiau da iawn, ym medrau dysgu y rhan fwyaf o ddisgyblion. Ar y cyfan, caiff tasgau eu cynllunio'n addas ar gyfer yr ystod gallu yn y dosbarthiadau. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion ymhellach gan ystod eang o weithgareddau allgyrsiol y tu mewn i'r ysgol ac yn y gymuned.

Mae'r profiadau a ddarperir i hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn elfen ragorol. Mae'r cysylltiadau rhyngwladol gyda gwledydd yn Ewrop ac India, yr ymweliadau preswyl â Ffrainc, cyfraniad ymwelwyr o wledydd eraill a gweithgareddau megis diwrnod y byd yn ymestyn a chyfoethogi profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae gweithgareddau datblygu gwybodaeth y plant o gynaladwyedd a'r amgylchfyd yn dda gyda'r pwyllgorau eco a masnach deg yn gwneud cyfraniadau pwysig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda. Cynllunnir yn fwriadus ac yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn meithrin medrau cyfathrebu cadarn o oed cynnar. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gadarn iawn. Caiff ymwybyddiaeth y disgyblion o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth ei hyrwyddo'n llwyddiannus ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu'n dda ar y cyfan, gydag arfer rhagorol mewn canran fach o wersi. Mae perthynas waith dda iawn rhwng athrawon, gweinyddesau a disgyblion. Defnyddir ystod dda o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gefnogi'r dysgu. Yn yr addysgu rhagorol, darperir profiadau cyfoethog a heriol sy'n dylanwadu'n effeithiol ar godi safonau. Mae'r ychydig iawn o ddiffygion yn yr addysgu yn ymwneud ag anaddasrwydd tasgau ar gyfer ystod gallu rhai grwpiau. Gwna'r gweinyddesau dysgu gyfraniad gwerthfawr, gan weithio'n effeithiol iawn gyda'r athrawon a'r disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Mae prosesau da mewn lle ar gyfer asesu cynnydd a datblygiad disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o asesiadau safonol ac o'r gyfundrefn dracio electroneg i olrhain datblygiad unigolion. Mae gwerthusiadau parhaol athrawon yn dylanwadu'n eglur ar gynllunio pellach. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn yr enghreifftiau gorau caiff y ffyrdd ymlaen eu nodi'n glir.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n dda mewn nifer o ddosbarthiadau. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at ddewis a gosod eu targedau eu hunain. Mae disgyblion yn rhannau uchaf yr ysgol yn enwedig yn gwerthuso eu datblygiad yn hyderus. Mae'r adroddiadau i rieni yn cyfateb â gofynion statudol ac ar y cyfan mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Sicrheir cymuned ofalgar a threfnus iawn lle teimla pawb y cânt eu gwerthfawrogi. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryfder amlwg. Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion a cheir perthynas waith effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae hyn ar adegau yn cynnwys cefnogi disgyblion unigol a'u teuluoedd yn eu cartrefi. Caiff y rhaglenni ddylanwad adeiladol ac effeithiol iawn ar y disgyblion hynny o ran hybu hunan-barch, hunanddisgyblaeth a'u hyder fel dysgwyr.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth ddiwylliannol y disgyblion, gan gynnwys y diwylliant Cymreig a'r elfen amlddiwylliannol, yn nodwedd ragorol. Llwydda'r ddarpariaeth i wreiddio ymwybyddiaeth y disgyblion o'u Cymreictod yng nghyd-destun yr ysgol a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus iawn. Yn ogystal, llwyddir i ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth a'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn hynod effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda. Mae'r staff yn dynodi anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhwydwaith o weithgareddau cefnogi sydd yn cyfrannu at wella eu safonau cyflawniad. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn cynnwys targedau eglur ac yn adlewyrchu safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau cynnydd yn rheolaidd. Caiff y disgyblion mwy galluog eu herio'n briodol trwy weithgareddau addas.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae'r polisi a chynlluniau cydraddoldeb hiliol yn eu lle sy'n bodloni'r gofynion statudol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae systemau cadarn yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau da ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn ohonynt. Mae'r ystafelloedd yn lliwgar

gydag arddangosfeydd symbylus ac amrywiaeth o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol yr ysgol yn dda. Mae cyfraniad y pennaeth yn y cyd-destun hwn o safon uchel ac yn cynnwys arfer rhagorol yn enwedig mewn perthynas â chreu amgylchedd dysgu nodweddiadol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn, gweledigaeth glir ac mae wedi gosod ystod o weithdrefnau effeithiol mewn lle sy'n symud yr ysgol yn ei blaen. Caiff ei chefnogi'n dda gan dîm rheoli, sy'n cynnwys aelodau cymharol newydd, yn ogystal ag athrawon a staff cynorthwyol brwdfrydig. Ceir llinellau cyswllt clir o fewn yr ysgol ac ymdeimlad cryf o berthyn i dîm. Mae'r timau pynciol, a sefydlwyd eleni, yn datblygu'n effeithiol.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth a dealltwriaeth dda am y ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol fel ffrind beirniadol. Gwnânt gyfraniad pwysig i fywyd a datblygiad pellach yr ysgol.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn weithredol ac mae ystod o fentrau, gan gynnwys y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, y ffocws ar fedrau, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer dda, yn cael eu hybu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau sefydlog, yn ogystal â rhai sy'n datblygu, ar gyfer arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Gwna'r pennaeth gyfraniad pwysig o ran hybu'r diwylliant o hunan arfarnu a chynllunio datblygol. Gwneir defnydd da o ystod o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data asesu a safbwyntiau rhieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr a swyddogion yr awdurdod lleol. Defnyddir yr holl wybodaeth a gesglir yn effeithiol ar gyfer sefydlu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn adnabod yn glir y cryfderau a'r agweddau i'w datblygu o fewn yr ysgol. Yn deillio o'r broses hunan arfarnu, mae'r gweithrediadau diweddar wedi codi safonau medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ac elfennau ar ddatblygiad eu medrau cyfathrebu a'u medrau mathemategol.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol ac ar lefel ehangach yn galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a hyrwyddo arfer dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol hynod o effeithiol sy'n ymestyn y ddarpariaeth a chodi safonau disgyblion. Mae gweledigaeth y pennaeth wrth sefydlu a hyrwyddo partneriaethau llwyddiannus sydd o fudd i addysg, lles a datblygiad y disgyblion yn nodwedd ragorol.

Ystyrir y berthynas gyda rhieni yn holl bwysig a gwnânt gyfraniad pwysig mewn sawl cyd-destun. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon llwyddiannus yn darparu adnoddau defnyddiol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd eang o'r gymuned leol tra bod ei chysylltiadau â mudiad yr Urdd yn gryf iawn. Mae cysylltiadau gyda byd busnes a'r ffocws ar hybu mentergarwch yn datblygu'n dda. Mae'r cysylltiadau Ewropeaidd a chyda India wedi'u gwreiddio ac yn caniatáu rhwydweithio llwyddiannus ar lefel broffesiynol eang iawn.

Ceir cysylltiadau cwricwlaidd cryf iawn a gweithdrefnau trosglwyddo o ansawdd uchel gyda'r ysgol uwchradd. Mae partneriaeth agos a llwyddiannus gyda nifer o asiantaethau allanol er mwyn cefnogi lles y disgybl. Mae ennill statws Buddsoddwyr mewn Teuluoedd yn cydnabod y gwaith da wrth ateb nodau craidd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae ansawdd ymglymiad yr ysgol o fewn ei chymuned dysgu broffesiynol, ysgolion eraill y clwstwr, ac yn ehangach yn nodwedd gref a llwyddiannus. O dan arweiniad y pennaeth, rhennir yr arfer dda yn y ddarpariaeth gydag ysgolion a chynulleidfaoedd eraill ar lefel sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol a staff unigol yn cyfrannu'n helaeth at nifer o brosiectau a gweithgorau ar lefel genedlaethol ac maent yn elwa'n fawr o hyn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Ceir cymhareb disgybl ac athro ffafriol a lleolir yr holl staff yn effeithiol. Gwneir defnydd adeiladol o amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon ar gyfer ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r staff cynorthwyol yn rhan bwysig o'r tîm a gwneir defnydd llawn o'u sgiliau. Darperir cefnogaeth gyson i'r athrawon sydd newydd gymhwyso. Gwna'r ysgol y defnydd gorau posibl o'r adnoddau a'r gofod sydd ar gael i gefnogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Ceir gweithdrefnau da ar gyfer sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer hybu datblygiad disgyblion, a'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol. Wrth ystyried ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i holiaduron dysgwyr

Ymatebodd 53 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i'r holiadur. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Mae llawer yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod digon o adnoddau yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith. Ym marn llawer, mae'r disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio.

### Ymateb i holiaduron rhieni

Ymatebodd 20 o rieni i'r holiadur, sydd yn ganran isel. Maent yn fodlon â'r ysgol ac yn datgan bod yr addysgu'n dda. Maent yn credu fod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn nodi bod eu plant yn hoffi'r ysgol a chredant eu bod yn ddiogel yno. Teimlant eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson ar gynnydd eu plant a bod gwaith cartref yn cynorthwyo'r plant gyda'u dysgu. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Ym marn llawer o'r rhieni, mae ymddygiad y disgyblion yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Brinley Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eluned Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tegwen Ellis | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |